

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Trafodaeth Caerffili – Adroddiad

Ymgynghori

Ionawr 2021

Cyflwyniad	3
Trosolwg o'r fethodoleg	3
Arolwg	4
Ymgyrch cyfryngau digidol a'r cyfryngau.....	5
Ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a phreswylwyr na chlywir eu lleisiau cymaint..	5
Canlyniadau.....	6
Map 1: Dosbarthiad cod post ymatebwyr yr arolwg.....	7
Canfyddiadau a Themâu Allweddol.....	8
Bodddhad cyffredinol â Gwasanaethau'r Cyngor.....	8
Graff 1: Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y 12 mis diwethaf (n=991).....	8
Bodddhad ag agweddau ar wasanaethau'r Cyngor.....	8
Graff 2: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ag agweddau ar wasanaethau rheng flaen y Cyngor:.....	9
Ffactorau sy'n effeithio ar wedd cymdogaethau.....	9
Ymateb i bandemig COVID-19.....	10
Graff 3: Beth yw eich barn am ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r pandemig COVID-19? (n=942).....	10
Gwasanaethau a gyrchwyd yn ystod y pandemig.....	10
Graff 4: Canran yr ymatebwyr a oedd o'r farn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi darparu'r gwasanaethau hyn yn dda neu'n dda iawn yn ystod y pandemig.	10
Graff 5: Dywedwch wrthym a oeddech yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn gan y Cyngor ar eu newydd wedd, p'un a wnaethoch eu defnyddio yn ystod y pandemig neu a hoffech eu defnyddio yn y dyfodol.	11
Cymunedau'n chwarae eu rhan.....	11
Graff 6: Mae fy nghymdogaeth yn fan lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd (n=980).....	12

Beth newidiodd i chi yn ystod COVID?.....	13
Graff 7: Canran sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau.....	13
Blaenoriaethau ar gyfer adferiad.....	13
Graff 8: Meysydd sy'n bwysig neu'n bwysig iawn i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt wrth i ni wella o'r pandemig.....	14
Cefnogi busnesau	15
Gweithio'n well gyda chymunedau	15
Graff 9: Cymhellion sy'n cael eu cynnig i gymunedau i'w hannog i ymfalchïo yn eu hardal leol.....	16
Trawsnewid Gwasanaethau'r Cyngor	16
Cael gafael ar wasanaethau a chysylltu â'r Cyngor.....	16
Taliadau arian parod.....	16
Gwella mynediad at wasanaethau o bell	17
Cyllideb y Cyngor a phennu treth y cyngor	17
Graff 10: Dewis ar gyfer Cynnydd yn Nhrefn y Cyngor 2021/22 (n=1006)	18
Uchelgeisiau llunio lleoedd yn dod yn realiti.....	19
Tai	19
Swyddi a'r Economi	19
Addysg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif – 'Uchelgeisiau a Rennir':.....	21
Yr amgylchedd/Newid hinsawdd	21
Graff 11: Pa mor bryderus ydych chi am newid yn yr hinsawdd? (n=995).....	22
Darparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol	23
Y Camau Nesaf.....	24

Cyflwyniad

Mae cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU yn wynebu heriau sylweddol, yng ngoleuni pandemig COVID-19, Brexit, newid yn yr hinsawdd a'r problemau economaidd dilynol sy'n anochel yn dod yn sgil yr heriau hyn.

Er gwaethaf yr heriau hyn, wrth i ni wella o effaith COVID-19 a mynd i'r afael â'r heriau eraill hyn, mae cyfle unigryw i ail-lunio dyfodol ein hardal leol.

Mae profiadau a safbwyntiau ein cymunedau yn hanfodol i helpu'r Cyngor i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac i lunio ein lleoedd a'n gwasanaethau cyhoeddus i adlewyrchu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ein trigolion.

Yn y cyd-destun hwn, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref sirol Caerffili ymgynghoriad ar raddfa fawr o'r enw 'Trafodaeth Caerffili'. Roedd yr arolwg ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor rhwng 18 Tachwedd 2020 a 3 Ionawr 2021 ac fe gafodd ei hyrwyddo'n eang drwy sianeli cyfryngau digidol. Er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu dweud eu dweud, cafodd yr arolwg ei gynnwys hefyd mewn rhifyn arbennig o "Newslin" a gafodd ei ddosbarthu i bob cartref yn y Fwrdeistref Sirol, a gwnaed ymdrech i ymgysylltu â chymunedau na chlywir eu lleisiau cymaint.

Gyda'r nod o gasglu barn y rhai sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, rhoddodd yr arolwg gyfle i bobl rannu eu profiadau o fywyd ledled yr ardal; eu barn ar wasanaethau cyhoeddus ac awgrymiadau ar gyfer ble y gellid gwella pethau wrth i ni edrych i'r dyfodol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, bennu cyllideb gytbwys a lefel Treth y Cyngor bob blwyddyn.

Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn bwysig o ran dylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Trosolwg o'r fethodoleg

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng **18 Tachwedd 2020 a 3 Ionawr 2021**. Roedd arolwg ar gael ar wefan y Cyngor ac fe'i hyrwyddwyd yn eang drwy sianeli cyfryngau digidol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyfyngiadau COVID-19 ar waith, gan atal unrhyw ymgysylltu wyneb yn wyneb, rhywbeth sydd wedi bod yn allweddol wrth ymgysylltu ynghylch cynigion cyllideb y Cyngor mewn blynyddoedd blaenorol. Er mwyn helpu i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu dweud eu dweud, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, dosbarthwyd copi papur o'r arolwg i bob cartref yn y Fwrdeistref Sirol mewn rhifyn arbennig o "Newslin". Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau na chlywir eu lleisiau cymaint lle bynnag oedd yn bosibl.

Arolwg

Datblygwyd arolwg manwl yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- Boddhad cyffredinol â gwasanaethau'r Cyngor a boddhad â nifer o wasanaethau rheng flaen allweddol a ddarperir gan y Cyngor
- Deall barn preswylwyr ar ymateb y Cyngor i COVID-19
- Helpu i lywio adferiad y Cyngor dros y blynyddoedd i ddod
- Helpu i lywio ein trafodaethau dros gyllideb y flwyddyn nesaf, gan gynnwys dewisiadau ar gyfer lefelau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Llywio ein trafodaethau parhaus ynghylch llunio lleoedd dros y tymor canolig i'r tymor hwy
- Darparu gwybodaeth benodol a all helpu i lunio'r deg adolygiad corfforaethol sy'n gysylltiedig â strategaeth drawsnewid Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd

Mae copi o'r holiadur llawn i'w weld yn [Atodiad 1](#).

Roedd yr arolwg llawn ar gael ar wefan y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori gyda baner tudalen flaen amlwg a thudalen bwrpasol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r arolwg i'w gwblhau ar-lein. Roedd fersiwn argraffadwy o'r arolwg hefyd ar gael ar y wefan.

Er mwyn annog y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, cafodd yr arolwg llawn hefyd ei gynnwys mewn "argraffiad arbennig" o rifyn mis Rhagfyr o gylchlythyr y Cyngor "Newslin". Dosbarthwyd hwn i bob cartref yn y Fwrdeistref Sirol. Anogwyd unrhyw breswlydd oedd angen cymorth i gwblhau'r arolwg i gysylltu â'r tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Datblygwyd fersiwn fyrrach o'r arolwg hefyd. Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys 6 chwestiwn allweddol fel y nodwyd gan Gabinet y Cyngor:

- 1) Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y 12 mis diwethaf?
- 2) Beth yw eich barn chi am ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r pandemig COVID-19?
- 3) Pa 3 gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor sydd bwysicaf i chi/eich cartref?
- 4) Beth yw eich dewis o ran Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod?
- 5) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chymhellion sy'n cael eu cynnig i gymunedau i'w hannog i ymfalchïo mwy yn eu hardal leol?
- 6) A oes gennych unrhyw syniadau am sut y gallem ddarparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol a sut y gallem weithio gyda chi a'ch cymuned i wneud hyn?

Roedd dau ddiben i'r fersiwn fyrrach hon o'r arolwg:

- Ffurio man cychwyn ar gyfer trafodaeth wrth gynnal sesiynau ar-lein gyda'r rhai na chlywir eu lleisiau cymaint

- Bod yn rhan o'r ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i annog preswylwyr i ymgysylltu drwy Facebook a Twitter a chwblhau fersiwn lawn yr arolwg yn brydlon.

Er mwyn annog cyfranogiad, roedd pawb a gwblhaodd yr arolwg neu a gymerodd ran mewn sesiynau ar-lein yn gallu cymryd rhan mewn raffl am ddim.

Ymgyrch cyfryngau digidol a'r cyfryngau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgarwch ar y we, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r ymgynghoriad mewn ffordd mor eang â phosibl ac i annog preswylwyr i gymryd rhan a dweud eu dweud.

Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Tudalen we a baner bwrpasol ar dudalen hafan gwefan y Cyngor
- Datganiadau i'r wasg
- Postiadau cyfryngau digidol rheolaidd drwy gydol y cyfnod ymgynghori gan gynnwys:
 - Facebook
 - Twitter a
 - NewsOnline: Anfonwyd 3 bwletin at 25, 575 o danysgrifwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori

Ceir rhagor o fanylion am y gweithgarwch cyfryngau digidol a gynhaliwyd yn [Atodiad 2](#).

Ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a phreswylwyr na chlywir eu lleisiau cymaint

Er mwyn annog y rhai â diddordeb arbennig yn yr ymgynghoriad i gymryd rhan a sicrhau bod preswylwyr na chlywir eu lleisiau cymaint yn gallu dweud eu dweud, rhannwyd manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys doler i'r arolwg, yn eang gydag amrywiaeth o rhanddeiliaid a grwpiau allweddol. Mae'r rhestr cysylltiadau'r rhanddeiliaid wedi'i chynnwys yn [Atodiad 3](#). Cysylltwyd, yn y lle cyntaf, drwy e-bost.

Cymerodd nifer o grwpiau ran mewn trafodaeth ar-lein ac fe'u hanogwyd i gwblhau'r arolwg os oeddent yn dymuno rhoi ymateb manylach:

- Menter Iaith
- Pobl yn Gyntaf Caerffili
- Fforwm Ieuenctid Caerffili
- Cynghorau Tref a Chymuned

Fe wnaeth eraill ei hyrwyddo a'i rannu gyda'u rhwydweithiau a'u rhestrau dosbarthu.

Canlyniadau

Dychwelwyd cyfanswm o 1055 o arolygon wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad cau, sef 3 Ionawr 2021. Cwblhawyd saith o'r rhain yn Gymraeg.

Yn ogystal â'r ymatebion i'r arolwg, cafwyd adborth ychwanegol gan breswylwyr drwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol a'r rhai a fynychodd drafodaeth ar-lein.

Ceir manylion llawn am yr ymatebion ychwanegol hyn yn [Atodiad 6 - Crynhoad o ymatebion/nodiadau ychwanegol o'r trafodaethau grŵp](#) ac [Atodiad 7 - Ymatebion cyfryngau digidol](#). Er bod y niferoedd yn rhy fach ar gyfer dadansoddiad ystadegol, mae'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r ymatebion ychwanegol hyn yn adlewyrchu'n fras yr ymatebion i'r arolwg.


*Nodyn: Mae'r data ystadegol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymatebion llawn i'r arolwg a dderbyniwyd ar-lein neu ar bapur. Gall nifer yr ymatebion a roddwyd ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm nifer yr holiaduron a gwblhawyd ac a ddychwelwyd. Felly, mae canrannau'n seiliedig ar nifer yr ymatebion i gwestiynau unigol (n =nifer yr ymatebion). **Er cysondeb ac i ganiatáu cymhariaeth ag arolygon cartrefi blaenorol, dim ond y rhai sydd wedi mynegi barn sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol gan eithrio ymatebion "ddim yn gwybod".***

Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r arolwg caeedig yn [Atodiad 4](#) gyda chrynodeb o sylwadau yn [Atodiad 5](#).

Yn gyffredinol, roedd 97% o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg yn byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Lle rhoddwyd cod post dilys, cafodd yr ymatebion eu mapio ac fel yr amlygir ym MAP 1, roedd dosbarthiad daearyddol da o ymatebwyr o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Roedd ychydig dros hanner (55%) yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn fenywod, a nododd 15% fod ganddynt anabledd. Roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr yn y grwpiau oedran hŷn. Mae proffil llawn yr ymatebwyr ar ddiwedd [Atodiad 4](#).

Map 1: Dosbarthiad cod post ymatebwyr yr arolwg




Canfyddiadau a Themâu Allweddol

Bodddhad cyffredinol â Gwasanaethau'r Cyngor

Gan ystyried popeth, roedd 77% o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y 12 mis diwethaf.


Graff 1: Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y 12 mis diwethaf (n=991)



Bodddhad ag agweddau ar wasanaethau'r Cyngor

Yn gyffredinol, roedd 89% o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon gyda'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu. O'r rhai a ymatebodd, roedd 77% yn fodlon gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, roedd 74% yn fodlon gyda pharciau a mannau agored tra bod cyfran is o'r ymatebwyr yn fodlon gyda chynnal a chadw priffyrdd (60%) a glanhau strydoedd a glanhau amgylcheddol (59%).

Graff 2: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ag agweddau ar wasanaethau rheng flaen y Cyngor:



Ffactorau sy'n effeithio ar wedd cymdogaethau

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r ffactor unigol mwyaf sy'n effeithio ar ymddangosiad cymdogaethau. Roedd hwn yn gwestiwn penagored gyda'r ymatebion yn adlewyrchu lefelau is o foddhad gyda gwasanaethau glanhau strydoedd ac amgylcheddol a chynnal a chadw priffyrdd. Roedd sylwadau'n ymwneud â'r ardal yn "anniben" a golwg "di-raen" ac yn benodol:


- Diffyg glendid
- Sbwriel
- Baw cŵn
- Diffyg glanhau strydoedd
- Biniau'n gorlifo (yn enwedig biniau gwastraff cŵn)
- Gordyfiant o ran glaswellt, ymylon ffyrdd, gwrychoedd, chwyn
- Tipio anghyfreithlon
- Cynnal a chadw gwael ar ffyrdd a phalmentydd
- Cynnal a chadw gwael/draeniau a gwteri wedi'u blocio - (yn enwedig gyda dail)

Nodwyd hefyd fod ymddygiad gwrthgymdeithasol, ceir wedi'u parcio, ceir ar balmentydd, adeiladu ar safleoedd tir glas yn ffactorau sy'n effeithio ar ymddangosiad cymdogaethau.

Ymateb i bandemig COVID-19

Fel y dangosir yng Ngraff 3, roedd 82% o'r ymatebwyr yn teimlo bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymateb yn dda neu'n dda iawn i bandemig COVID-19.

Graff 3: Beth yw eich barn am ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r pandemig COVID-19? (n=942)




Gwasanaethau a gyrchwyd yn ystod y pandemig

Y gwasanaethau mwyaf poblogaidd yn ystod y pandemig oedd cyfathrebu, cefnogi cymunedau, cefnogi agor canol trefi yn ddiogel a gwasanaethau cwsmeriaid.


Mae **Graff 4** yn dangos pa mor dda roedd pobl yn teimlo ein bod yn darparu gwasanaethau yn ystod y pandemig. Ar draws yr holl wasanaethau a restrwyd, teimlai ymatebwyr ein bod wedi darparu'r gwasanaethau hyn yn dda neu'n dda iawn gyda'r lefelau uchaf yn ymwneud â chyfathrebu e.e. diweddariadau newyddion, gwefan a chyfryngau digidol (89%) a'r gwasanaeth dosbarthu prydu ysgol am ddim (88%).

Graff 4: Canran yr ymatebwyr a oedd o'r farn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi darparu'r gwasanaethau hyn yn dda neu'n dda iawn yn ystod y pandemig.



Caewyd nifer o wasanaethau ac adeiladau neu rhoddwyd mynediad cyfyngedig iddynt oherwydd COVID-19. Cynigiodd y Cyngor wasanaethau mewn ffordd wahanol i geisio galluogi preswylwyr i barhau i dderbyn gwasanaethau allweddol penodol. Roedd tua hanner y rhai a ymatebodd yn ymwybodol o'r gwasanaethau ar eu newydd wedd er bod ymwybyddiaeth ar ei huchaf mewn perthynas â'r llinell gymorth ariannol. Y gwasanaeth a ddefnyddiwyd fwyaf yn ystod y cyfnod hwn oedd y gwasanaeth ffôn gwell i gael mynediad at wasanaethau cwsmeriaid. Dangosir hyn yng Ngraff 5.

Graff 5: Dywedwch wrthym a oeddech yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn gan y Cyngor ar eu newydd wedd, p'un a wnaethoch eu defnyddio yn ystod y pandemig neu a hoffech eu defnyddio yn y dyfodol.




Roedd ychydig dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (64%) yn teimlo ei bod yn bwysig iawn neu'n weddol bwysig cael cefnogaeth gan y Cyngor, yn ogystal â sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn ystod pandemig COVID-19.

Cymunedau'n chwarae eu rhan

Daeth cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili ynghyd â mudiadau gwirfoddol a chyrrff cyhoeddus gan gynnwys y Cyngor yn ystod y pandemig, i roi cymorth hanfodol i'w gilydd.

Fel y dangosir yng Ngraff 6, roedd 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu cymdogaeth yn fan lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd.

Graff 6: Mae fy nghymdogaeth yn fan lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd (n=980)



O'r rhai a ymatebodd, teimlai 46% fod mwy o ysbryd cymunedol o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn eu hardal leol (ystâd, pentref, tref neu'r Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd). Nododd nifer eu bod wedi bod yn ymwneud â threfnu neu gyfrannu at gynllun cymdogion da, banc bwyd neu grwpiau cymorth ar-lein. Er bod 35% yn teimlo bod lefel yr ysbryd cymunedol wedi aros yr un fath, teimlai 11% fod llai o ysbryd cymunedol yn ystod y cyfnod hwn (n=1031).

O'r rhai a deimlai fod ysbryd cymunedol wedi cynyddu yn ystod y pandemig, roedd y prif resymau a roddwyd yn cynnwys:

- Drwy fod gartref, mae pobl wedi cael mwy o gyfle ac amser
- Teimlad ein bod i gyd yn hyn gyda'n gilydd e.e. clapio ar gyfer y GIG
- Mwy o bobl yn ymarfer corff yn lleol ac yn siopa'n lleol
- Mae llawer yn cefnogi eraill gyda siopa a chasglu presgripsiynau


Ymhlith y rhai a deimlai fod ysbryd cymunedol wedi aros yr un fath, roedd y sylwadau'n gymysg. Teimlai rhai, er bod ysbryd cymunedol wedi cynyddu i ddechrau, fod hyn wedi lleihau eto ers hynny, nododd eraill y bu ysbryd cymunedol da yn eu hardal erioed.

I'r rhai a deimlai fod llai o ysbryd cymunedol, mae'r rhesymau a roddwyd yn cynnwys hunanoldeb, ofn, rhwystredigaeth gyda'r cyfyngiadau, pobl nad ydynt yn dilyn rheolau ac eraill yn feirniadol. Mae'r cyfyngiadau symud a chau lleoliadau cymunedol e.e. clybiau chwaraeon, tafarndai, wedi lleihau nifer y cyfleoedd sydd ar gael i bobl gyfarfod â ffrindiau a chymdogion.

Beth newidiodd i chi yn ystod COVID?

Mae pandemig COVID-19 wedi dod â llawer o newidiadau i'r ffordd rydym yn byw ein bywydau, gan effeithio ar sut rydym yn mynd i'r gwaith, mynd i'r ysgol, siopa, teithio a gweld ffrindiau, teulu a chymdogion. Mae Graff 7 yn amlygu'r ffordd y mae pobl wedi newid eu harferion yn ystod y pandemig.

Graff 7: Canran sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau




O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, nododd 39% nad yw'r pandemig wedi effeithio ar eu sefyllfa gyflogaeth (er y nodwyd bod y *ffordd* maen nhw'n gweithio wedi newid). Nododd 28% arall nad oeddent yn gweithio cyn y pandemig, ac roedd llawer ohonynt wedi ymddeol o'r gwaith.

Blaenoriaethau ar gyfer adferiad

Fel y dangosir yng Ngraff 8, ystyriwyd bod y meysydd gwasanaeth allweddol a nodwyd yn bwysig iawn neu'n weddol bwysig gan dros 90% o'r ymatebwyr. Ystyriwyd mai cefnogaeth i'r rhai sy'n agored i niwed yn ein cymunedau oedd prif flaenoriaeth y Cyngor wrth i ni adfer o'r pandemig.

Graff 8: Meysydd sy'n bwysig neu'n bwysig iawn i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt wrth i ni wella o'r pandemig



Mae'r gwasanaethau yr ystyrir eu bod bwysicaf i ymatebwyr yr arolwg yn cynnwys llawer o'r gwasanaethau rheng flaen allweddol, casglu sbwriel ac ailgylchu, y nodwyd eu bod yn bwysig mewn arolygon blaenorol. O ganlyniad i'r pandemig, tynnwyd sylw at nifer o wasanaethau eraill yn yr arolwg hwn e.e. tlodi bwyd a dosbarthu pryddau ysgol am ddim. Y teimlad oedd mai'r gwasanaethau pwysicaf i ymatebwyr, oedd:

- Gwasanaethau gwastraff, casglu sbwriel ac ailgylchu
- Cynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd
- Glanhau, cynnal a chadw
- Addysg ac ysgolion
- Parciau a mannau agored awyr agored
- Canolfannau hamdden
- Llyfrgelloedd
- Goleuadau stryd
- Gofal cymdeithasol a gwasanaethau i'r rhai sy'n agored i niwed yn arbennig, pobl hŷn a phlant
- Tlodi Bwyd a phryddau ysgol am ddim
- Cymorth Ariannol a Threth y Cyngor
- Diogelwch Cymunedol
- Tai a digartrefedd
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwasanaethau ar-lein

Cefnogi busnesau

Ystyriwyd bod creu cyfleoedd i greu swyddi yn bwysig neu'n bwysig iawn gan 97% o'r ymatebwyr (n=964).

Roedd 95% yn teimlo ei bod yn bwysig neu'n bwysig iawn i'r Cyngor ganolbwyntio ar gymorth i fusnesau lleol o ran cymorth grant a pharatoi ar gyfer pan fydd y cyfyngiadau symud wedi'u llacio (n=939). Ystyriwyd bod cymorth cychwyn busnes hefyd yn bwysig yn y blwch ymateb "arall".

Roedd 87% yn teimlo ei bod yn bwysig neu'n bwysig iawn hyrwyddo canol trefi fel lle i ymweld ag ef (n=967) ac roedd 83% o'r farn ei bod yn bwysig neu'n bwysig iawn cefnogi gweithgareddau a gwasanaethau'r economi ymwelwyr yn ein hardaloedd sydd ag atyniadau i dwristiaid (n=958).


Ystyriwyd bod cynaliadwyedd lleoliadau diwylliant a hamdden yn bwysig neu'n bwysig iawn i 82% o'r ymatebwyr (n=969).

Gweithio'n well gyda chymunedau

O'r rhai a ymatebodd, nododd 21% eu bod yn gwirfoddoli ar hyn o bryd. Y maes y byddai gan bobl ddiddordeb mewn cymryd rhan ynddi yw gwirfoddoli cymunedol e.e. casglu sbwriel ac ati. Rhoddodd cyfanswm o 174 o bobl fanylion cyswllt i'w hychwanegu at gofrestr o wirfoddolwyr.

Teimlai 78% ei bod yn syniad da sicrhau bod cyllideb gymunedol ar gael i breswylwyr wneud mwy o bethau drostynt eu hunain yn y dyfodol ac fel y dangosir yng Ngraff 9, roedd 89% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chymhellion a gynigir i gymunedau i'w hannog i ymfalchïo yn eu hardal leol.

Graff 9: Cymhellion sy'n cael eu cynnig i gymunedau i'w hannog i ymfalchïo yn eu hardal leol



Trawsnewid Gwasanaethau'r Cyngor

Cael gafael ar wasanaethau a chysylltu â'r Cyngor

O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg:

- dywedodd 2% na allant neu nad ydynt am gael mynediad i'r rhyngwrwyd a
- nododd 4% nad oes ganddynt fynediad fforddiadwy i'r rhyngwrwyd
- roedd cyfran fach yn ymweld ag adeiladau'r Cyngor yn rheolaidd cyn y pandemig gyda 94% yn dweud eu bod yn ymweld ag adeiladau'r Cyngor i dalu biliau neu gael mynediad at wasanaeth lai na bob pythefnos

Nododd 37% o'r ymatebwyr y bu angen iddynt gysylltu â'r Cyngor ers i'r swyddfeydd gau ym mis Mawrth. Y prif resymau a roddwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff a Threth y Cyngor.

Y brif ffordd o gysylltu â'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn oedd dros y ffôn (69%) gyda 41% yn defnyddio e-bost a 37% yn defnyddio'r wefan. Ar y cyfan, dywedodd 73% eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd i gysylltu â'r Cyngor yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Taliadau arian parod

Yn ystod pandemig COVID-19, nid yw'r Cyngor wedi gallu cymryd taliadau arian parod ac mae wedi helpu pobl i newid tuag at dalu eu biliau mewn ffordd wahanol. Roedd 76% yn cytuno y dylai'r Cyngor fod yn annog pobl i barhau i dalu eu biliau fel hyn. Roedd nifer o sylwadau'n ymwneud â sicrhau bod amrywiaeth o opsiynau ar gael a sicrhau bod dewisiadau amgen ar gael i'r rhai heb gyfrifon banc a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol (y

rhai heb y sgiliau i'w defnyddio a/neu'r rhai heb fynediad at ddyfais neu'r rhyngwyd). Nododd nifer fach fod diffyg ymddiriedaeth gan bobl mewn systemau.

Gwella mynediad at wasanaethau o bell

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth allai'r Cyngor ei wneud i wella ymhellach y ffordd y gall preswylwyr gael gafael ar wasanaethau o bell (naill ai dros y ffôn neu ar-lein). Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol:

- Mae ffonau'n bwysig i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol
- Sicrhau bod ffonau'n cael eu hateb yn brydlon
- Sicrhau bod staff sy'n ateb galwadau yn gallu ymateb i ymholiadau a bod cysondeb
- Gwella systemau
 - Sicrhau bod ffurflenni gwefan ac ati yn hawdd i'w defnyddio
 - Gwella'r cyfleuster sgwrsio
- Ymestyn oriau agor – nid gwasanaeth 9-5

Mae'r gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer darpariaeth wyneb yn wyneb wrth symud ymlaen yn cynnwys:


- Gwasanaethau cofrestru
- Llyfrgelloedd
- Cymorth a chyngor/cymorth
- Gofal/gwasanaethau cymdeithasol ac
- Ysgolion

Cyllideb y Cyngor a phennu treth y cyngor

Ar adeg cynnal yr ymgynghoriad, nid oedd cynghorau ledled y wlad wedi derbyn manylion am eu setliad ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, mae gan gynghorau rwymedigaeth gyfreithiol bob blwyddyn i bennu cyllideb gytbwys, gyda lefelau treth y cyngor a bennwyd. Mae treth y cyngor yn codi tua £72.8 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli 20.4% o gyfanswm ein cyllideb. Yn 2019/2020 cynyddodd treth y cyngor ym Mwrdeistref Sirol Caerffili 4.7%. Yng ngoleuni'r sefyllfa, gofynnwyd i breswylwyr nodi eu dewis mewn perthynas â chynnydd yn Nhreth y Cyngor:

Mae Graff 10 yn dangos y byddai 31% o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig o 4.7% gyda 7% arall yn barod i dalu cynnydd hyd yn oed yn fwy. Byddai 33% yn cefnogi cynnydd is. Fodd bynnag, nid yw 30% yn cefnogi unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor o gwbl.

Graff 10: Dewis ar gyfer Cynnydd yn Nhreth y Cyngor 2021/22 (n=1006)



Pan ofynnwyd sut arall y gallai'r Cyngor ymateb i'r heriau ariannol a wynebir, os nad drwy gynnydd yn Nhreth y Cyngor, roedd y sylwadau'n ymwneud ag:

- Ystyried y caledi ariannol presennol y mae pobl yn ei wynebu mewn perthynas â cholli swyddi/ffyrlo ac ati
- Gwella effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau – llai o wastraff
- Lleihau nifer y rolau uwch reolwyr/lefelau staffio cyffredinol a chyflogau
- Symud tuag at ddarparu mwy o wasanaethau mewn ffordd ddigidol
- Symleiddio'r ddarpariaeth o swyddogaethau nad ydynt yn rhai craidd – gydag awgrymiadau y gall rhai gwasanaethau gael eu dileu'n llwyr neu eu darparu gan sefydliad arall
- Lleihau nifer yr adeiladau a chostau cysylltiedig (gan ystyried cynnydd mewn gweithio gartref).

Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn o natur debyg i'r rhai a roddwyd mewn perthynas â sut y gallai'r Cyngor ddarparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol a sut y gall y Cyngor weithio gyda'r gymuned i wneud hyn (cyfeiriwch at [Darparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol](#)).

Uchelgeisiau llunio lleoedd yn dod yn realiti

Mae'r Cyngor yn trawsnewid gwasanaethau fel rhan o'i Strategaeth 'Tîm Caerffili – Yn well Gyda'n Gilydd', gan edrych ar sut y gallwn wneud pethau'n wahanol; blaenoriaethu ein gwasanaethau, archwilio cyfleoedd i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid, darparu digidol, gweithio mewn partneriaeth a mabwysiadu dull mwy masnachol. Mae COVID-19 wedi cyflymu cyflymder a ffurf y newid yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ac rydym wedi gorfod addasu'n gyflym.

Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei daith drawsnewid, gyda nifer o feysydd datblygu blaenoriaeth pellach wedi'u cynnwys yn ei uchelgeisiau llunio lleoedd.

Tai

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor bron â chwblhau ei raglen gwella ffisegol gwerth £261 miliwn i'r stoc dai drwy gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc dai bresennol i ddarparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn ogystal â rhaglen adeiladu newydd mewn partneriaeth.

Gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd tai o ansawdd da yn eu barn nhw a beth sy'n bwysig i'r Cyngor ei ystyried. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynaliadwyedd
 - Cartrefi gwyrdd – effeithlonrwydd ynni,
 - Peidio ag adeiladu ar safleoedd tir glas neu orlifdiroedd
- Mynediad i ofod awyr agored (priodol)
- Hygyrch – yn agos at amwynderau/cyfleusterau cymunedol lleol
- Yr angen am seilwaith cryf i gefnogi cartrefi newydd
 - Ffyrdd
 - Gwasanaethau hanfodol,
 - Diogel i'r dyfodol – seilwaith cynaliadwy
 - Llwybrau teithio llesol
- Cartrefi sy'n ddiogel
- Mynd i'r afael â digartrefedd fel blaenoriaeth
- Darparu ar gyfer strwythurau teuluol sy'n newid e.e. cartrefi i bobl sengl/teuluoedd llai

Swyddi a'r Economi

Mae'r Cyngor yn bartner allweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys deg awdurdod lleol. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £1.1 biliwn i'r Fargen Ddinesig – sy'n cael ei chefnogi gan £120 miliwn ychwanegol a ymrwymwyd gan y 10 awdurdod lleol partner.

Nodau tymor hwy y Fargen Ddinesig yw helpu i hybu twf economaidd, drwy wella cysylltiadau trafndiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i gael gwaith a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i dyfu.

Gofynnodd yr arolwg am farn ar sut byddai economi gref a ffyniannus yn edrych, ac fel un o drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili, beth sy'n bwysig o ran yr economi leol. Ymhlith y materion allweddol a godwyd roedd:

- Swyddi lleol a chyfleoedd cyflogaeth
 - Economi leol gynaliadwy
 - Cefnogi busnesau bach a lleol
 - Annog buddsoddi
- Cyfleoedd i bobl ifanc
 - Hyfforddiant
 - Addysg
 - Prentisiaethau
- Canol trefi "ffyniannus" a "bywiog" heb unrhyw eiddo gwag
 - Nid siopau yn unig
 - Bwyta/lleoliadau hamdden i annog pobl i ymweld â'r ardal a gwario'u harian yno
- Cysylltiadau trafndiaeth da
- Lleihau anghydraddoldeb
 - Lleihau'r bwch tlodi
 - Dileu digartrefedd

Gofynnwyd am farn pobl am syniadau ar gyfer denu busnesau newydd ac ymwelwyr i ganol trefi a'r stryd fawr, yn enwedig yng ngoleuni newid arferion siopa. Daeth nifer o themâu i'r amlwg:

- Parcio am ddim a gwell cyfleusterau parcio yng nghanol y dref
- Ardrethi busnes is i annog busnesau newydd
- Cymhellion ariannol i fusnesau – grantiau
- Cynnig "unigryw" yng nghanol trefi i'w gwneud yn "gyrchfan"
 - siopau unigryw
 - amrywiaeth ac ansawdd
- Angen cydnabod bod arferion yn newid a newid yr hyn a gynigir i gyd-fynd â hyn
 - canol trefi "wedi'u hailddychmygu"
 - nid economi 9-5 yn unig
 - economi gymysg - hamdden a defnydd preswyl - nid siopau yn unig
- Lle glân a diogel i ymweld ag ef
- Angen gwella gwedd gyffredinol canol tref/ardal i'w gwneud yn ddeniadol ac i annog ymwelwyr
- Gwella rhwydweithiau beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

- Cefnogi cyfleoedd busnes sydd wedi'u galluogi'n ddigidol h.y. sicrhau band eang dibynadwy i fusnesau
- Lleihau nifer yr eiddo gwag – nid siopau yng nghanol trefi yn unig ond ardaloedd manwerthu y tu allan i'r dref hefyd
- Dysgu gan eraill
- Hyrwyddo'r hyn sydd ar gael

Addysg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif – 'Uchelgeisiau a Rennir':

Nod strategaeth 'Uchelgeisiau a Rennir' y Cyngor yw codi safonau a sicrhau bod dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel.

Mae gennym hefyd raglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n helpu i drawsnewid ysgolion a lleoliadau eraill yn gyfleusterau addysgol o'r radd flaenaf.


Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r hyn sydd bwysicaf iddynt o safbwynt addysg. Mae'r pwyntiau a godwyd yn aml yn cynnwys:

- Sicrhau bod addysg yn darparu sgiliau ar gyfer swyddi a gwaith a bod addysg alwedigaethol yn gadarn gyfer y dyfodol
- Dylai'r cwricwlwm ganolbwyntio ar ddarparu sgiliau bywyd ymarferol, eang ac nid cyflawniadau academaidd yn unig
- Mae angen i adeiladau a chyfleusterau ysgolion fod yn
 - Fodern ac addas i'r diben
 - Amgylchedd diogel
- Dylai'r addysgu fod o ansawdd uchel
- Mae angen i addysg fod yn amrywiol ac yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb (anabledd, darpariaeth Gymraeg)
- Mae addysg oedolion hefyd yn bwysig
- Bydd mynediad at dechnoleg i bawb gan gynnwys band eang dibynadwy yn cefnogi addysg
- Annog dyheadau uwch a chodi disgwyliadau

Yr amgylchedd/Newid hinsawdd

Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng newid yn yr hinsawdd ac mae wedi ymrwymo i'r targed uchelgeisiol o fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Fel y dangosir yng Ngraff 11, roedd 85% o'r rhai a ymatebodd yn bryderus iawn neu'n weddol bryderus am newid yn yr hinsawdd.

Graff 11: Pa mor bryderus ydych chi am newid yn yr hinsawdd? (n=995)



O ran yr hyn y gallai pobl ei wneud i helpu'r Cyngor a phartneriaid eraill i leihau effaith newid yn yr hinsawdd dros y blynyddoedd nesaf, daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn y sylwadau:

- Mae angen sefydlu seilwaith cryf i annog a galluogi pobl i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy:
 - pwyntiau gwefru ceir ar gyfer ceir trydan
 - trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, gwyrdd a dibynadwy
 - llwybrau beicio da a
 - llwybrau cerdded diogel i annog cerdded – yn enwedig ar gyfer teithiau byrrach
- Lleihau teithio - parhau gyda gweithio o gartref i leihau'r angen i deithio
- Annog pobl i siopa'n lleol
- Sefydliadau mwy i gymryd yr awenau e.e. lleihau plastig untro
- Gwella ailgylchu
- Anelu at ddyfodol diwastraff
 - defnyddio llai
 - gwastraffu llai
 - uwchgylchu
 - hyrwyddo economi gylchol
- Addysg a chodi ymwybyddiaeth mewn perthynas â chynaliadwyedd – eglurder ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud e.e. ailgylchu
- Plannu coed (peidio â thorri coed)
- Tyfu eich bwyd eich hun

Nododd llawer o'r rhai a ymatebodd eu bod eisoes yn gwneud nifer o'r pethau hyn.

Darparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol

Roedd y cwestiwn olaf yn yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr nodi sut y gallai'r Cyngor ddarparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol a sut y gallai'r Cyngor weithio gyda'r gymuned i wneud hyn. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- Sut mae'r awdurdod ar bob lefel (gan gynnwys aelodau etholedig) yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phreswylwyr
- Gwrando ar gymunedau a dod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd ei angen ar breswylwyr
- Annog gwirfoddoli a gweithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau lleol i ddarparu gwasanaethau
- Sicrhau bod mynediad hawdd at wasanaethau – i bawb p'un a yw hyn ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.
 - Dylai mynediad digidol i wasanaethau fod ar gael lle bynnag y bo modd ond dylent gydnabod bod rhai wedi'u hallgáu'n ddigidol
 - Rhaid darparu rhai gwasanaethau wyneb yn wyneb e.e. llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden
 - Gall gwneud gwasanaethau'n anos cael gafael arnynt arwain at sgil-efeithiau e.e. canfyddir bod llai o fynediad at Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon
- Defnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes i gydleoli gwasanaethau e.e. llyfrgelloedd fel "Hybiau" lle gall preswylwyr gael gafael ar lawer o wasanaethau mewn un lle, yn y gymuned
 - Rhannu adnoddau – rhwng meysydd gwasanaeth, gyda phartneriaid, sefydliadau gwirfoddoli lleol, busnesau lleol
- Gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i ddarparu gwasanaethau
- Cynnal adolygiad o wasanaethau. Wrth i anghenion newid, felly dylai'r gwasanaethau a ddarperir newid hefyd
- Gwella effeithlonrwydd (defnyddio technoleg i wneud hynny) a lleihau biwrocratiaeth
- Sicrhau cynaliadwyedd datblygu a darparu gwasanaethau
 - e.e. gwasanaethau trafndiaeth gwyrdd ac effeithlon, rhwydweithiau beicio da a phwyntiau gwefru trydan
 - parhau gyda threfniadau gweithio gartref lle bo modd a lleihau nifer yr adeiladau swyddfa ac ati

Y Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad hwn a chanfyddiadau'r arolwg hwn yn cael eu rhannu â Chabinet ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor.

Rhestr o'r Atodiadau:

- 1) [Arolwg Ymgynghori](#)
- 2) [Ymgyrch Cyfryngau Digidol](#)
- 3) [Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#)
- 4) [Crynodeb o'r Ymatebion i'r Arolwg Caeedig](#)
- 5) [Crynodeb o'r Sylwadau](#)
- 6) [Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol](#)
- 7) [Ymatebion cyfryngau digidol](#)